


Yr ardal

Mae’r ysgol yma wedi ei sefydlu ym mhentref ar ymylon dinas. Mae’n cael ei gynnal gan awdurdod y sir leol. Mae ganddo 17 ddosbarth llawn disgyblion tri i un ar ddeg oed. Dim ond 7% o’r disgyblion sy’n cael mynediad i brydau ysgol am ddim (Fy Ysgol Leol, 2020). Mae hyn yn dangos nid yw’r ardal o amgylch yr ysgol yn cael ei ystyried fel ardal dlawd. Cefnogir hyn gan wybodaeth o’r llywodraeth a ddangosir canran cyfartaledd y sir yw 22.4%. Hefyd, wrth edrych ar gefndir y disgyblion, gwelwn fod 10% ohonyn nhw yn dod o gartrefi Cymraeg, er bod yr ysgol yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dwedir “Cymraeg yw prif gyfrwng Gwaith a bywyd yr ysgol” (Estyn, 2018). Mae hyn mewnwelediad i’r amrywiaeth ddiwylliannol yr ardal. Allan o’r 510 o ddisgyblion yr ysgol mae 23% ohonyn nhw wedi’u nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.



Cysylltiadau gyda’r Gymuned

Mae’r cynllunio a’r paratoi yn yr ysgol lleoliad yn ystyried barn Bronfenbrenner wrth wneud cysylltiadau gyda’r gymuned. Maent yn gwneud hyn wrth sicrhau fod doniau chwaraeon, ffydd ac elfennau diwylliannol yn cael ei chynnwys i sicrhau llwyddiant a datblygiad ei disgyblion.

Chwaraeon

Mae gwneud cysylltiadau gyda’r gymuned leol yn rhan hanfodol o ddysgu yn yr ysgol lleoliad. Mae ganddyn nhw lu o gysylltiadau sy’n estyn ac yn cyrraedd pob elfen o’r cwricwlwm. Cyswllt cryf sy’n cael ei ddefnyddio yn aml yw’r cyswllt gyda chlybiau chwaraeon lleol gwahanol. Enghraifft o hyn yw’r diwrnod “iechyd a lles” ble mae’r ysgol yn croesawu clybiau i mewn i’r safle i gynnal sesiynau blas o’r criced, rygbi, jiwdo, pêl-droed – i enwi rhai. Trwy wneud hyn mae’r ysgol a’r gymuned ehangach yn elwa gydag elfennau o’r cwricwlwm yn cael ei chyffwrdd yn ogystal a hysbysebid y sefydliad. Mae sgiliau chwaraeon y plant hefyd yn cael ei ddatblygu. Rhoddir hyn y cyfle hefyd i ddoniau naturiol unigolion cael ei weld ai cydnabod.

Dechrau wrth fy nhraed

Cwricwlwm

“Gwella addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol.” (Hwb, 2020). Mae’n sylfaenol bod y cyfleoedd mae’r cwricwlwm newydd roi yn cael ei gofleidio i sicrhau fod pob disgybl yn elwa ac yn datblygu o dan ei arweiniant. Mae’r dull trawsgwricwlaidd sy’n cael ei gyflwyno yn y meysydd dysgu a phrofiad yn caniatáu i athrawon ystyried anghenion a diddordebau unigol eu disgyblion. Mae’r pedwar craidd pwrpas yn ystyried theori Bronfernbrenner. Maent yn rhoi’r dull cyfannol o addysgu ar y blaen sy’n sicrhau bod pob agwedd o’r unigolyn yn ganolog i’w addysg.

Yr ysgol

Mae’r ysgol yn ystyried yr angen am gwricwlwm eang a chytbwys sy’n cael ei gyfuno ag amserlen allgyrsiol helaeth a chysylltiadau a’r gymuned. Mae ganddyn nhw system ‘Llais y Disgybl’ wedi ei sefydlu’n gadarn, lle mae pob disgybl yn cael cyfle i gyfrannu ei syniadau at y sgiliau a’r cynnwys am yr hyn y maent yn dysgu. Cyn dechrau pob hanner tymor, mae athrawon yn ystyried cynlluniau ei disgyblion. Maent yn cynllunio ar y cyd ar gyfer gweithgareddau posib. Mae’r system wedi’i sefydlu trwy’r ysgol gyfan er mwyn sicrhau cysondeb.

Awyr Agored

Mae dysgu yn yr awyr agored hefyd wedi’i ymgorffori yn y cyfleoedd dysgu yn gyson. Mae’r ysgol goedwig sydd ar y safle yn caniatáu’r plant i fynd allan er mwyn datblygu sgiliau ymhellach.



Rhieni

Mae cyfranogiad ac ymgysylltiad rhieni hefyd yn uchel ar flaenoriaethau’r ysgol lleoliad. Gwahoddir rhieni i’r ysgol yn rheolaidd. Mae hyn yn digwydd am y tro cyntaf cyn i’r disgybl dechrau yn yr ysgol. Maent yn derbyn gwahoddiad i fynychu sesiwn gyda’i phlentyn. Pwrpas hwn yw cryfhau perthynas trionglog (Disgybl, Rhiant, Athro) yn gynnar ac er mwyn gosod sylfeini a safonau. Yn dilyn hyn, mae bob rhiant yn cael gwybodaeth glir a cyson wrth i’r plentyn mynd trwy’r ysgol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis, Trydar, Facebook a gwefan yr ysgol. Mae pob rhiant o yn derbyn adroddiad ysgrifenedig manwl o ddatblygiad ei phlentyn yn flynyddol neu bob hanner flwyddyn. Mae wythnos “Dewch â’ch rhiant i’r ysgol” yn llwyddiannus trwy godi ymwybyddiaeth y rhieni o sut mae’r athrawon yn addysgu agweddau o’r cwricwlwm. Yn ogystal â hyn, rhoddir cyfle i rieni i gefnogi addysg Gymraeg eu plentyn gan fod yr ysgol yn cynnig cwrs o wersi Cymraeg i’r rhai sydd â diddordeb mewn gwella eu sgiliau ieithyddol eu hun, neu ddysgu’r iaith o’r newydd.

Cyngor Ysgol ac Eco

Cafwyd arolwg Estyn yn yr ysgol yn gymharol ddiweddar. Dywedwyd fod yr ysgol yn gymuned ofalgar a barn yr arolygwyr oedd “Da ym mhob maes arolygu” (Estyn, 2018). Yn ystod yr arolygiad hwn canmolwyd yr ysgol yn fawr am y cyfleoedd sydd gan y plant o ran arwain eu dysgu. Cafod ei chydabod, wrth siarad gyda’r plant, pa mor falch yr oedden am eu cyngor ysgol a’u chynghor eco. Pwrpas y ddau yw rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu arweinyddiaeth trwy drefnu a chynnal gweithgareddau ysgol. Mae’r ddau gyngor darparu ffordd ystyrlon y gall disgyblion leisio’u barn a chael eu barn i ystyriaeth mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt. Maent yn darparu cyfleoedd arweinyddiaeth i’w disgwyllion ac yn cynrychioli barn yr holl blant. Mae’r cynghorau yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyfathrebu’n dda rhwng pob cynrychiolydd a’u dosbarth.



Sianter iaith

Mae Criw Sianter iaith yr ysgol lleoliad yn chwarae rôl annatod i ddatblygu sgiliau iaith Cymraeg pob disgybl. Mae proffil yr iaith Gymraeg yn cael ei dwysau gan eu hymdrechion ac felly’n effeithio’n gryf ar sgiliau a datblygiad y plant yn y gymuned yn ogystal ag yn yr ystafell ddosbarth. Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog am Gymru sy’n cynnwys y cyfle i cymryd rhan mewn profiadau fel Gŵyl Twrw Tawe. Meant hefyd yn trefnu ymweliad blynyddol preswyl yng ngogledd Cymru fel rhan o’r thema ‘Baint yw bod yn Gymro’ gan ddwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol o hanes a diwylliant Cymru.

Cyswllt Prifysgol

Mae’r ysgol a’r disgyblion yn helpu i ddatblygu dinasyddion hyderus ar gyfer y dyfodol sydd ag ystod eang o sgiliau i ddechrau ar fyd Gwaith trwy gofleidio myfyrwyr prifysgolion lleol. Mae ei ymrwymiad i gefnogi athrawon y dyfodol wedi cael ei ddangos dros y blynyddoedd.

Cymorth ychwanegol

Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol sy’n cynnwys targedau addas. Mae disgyblion a rhieni yn cyfrannu’n bwrpasol at osod ac adolygu targedau. Mae’r ysgol yn darparu ymyraethau sy’n cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn effeithio hefydl.



Elina Deacon
1802272
ECAD4009-C

Rhestr Cyfeirnod

Gwybodaeth

Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad> (Darllenwyd: 2 Ionawr 2021).

Estyn (2018) Ar gael yn: <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las/UploadedDocument/993c574d7b94440faf7db04e75062a03/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las-adroddiad-estyn.pdf> (Darllenwyd: 1 Ionawr 2021)

Guy-Evans, O. (2020) *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*, Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Darllenwyd: 1 Ionawr 2021)

Llywodraeth Cymru. *StatsWales*, Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Provision-of-Meals-and-Milk>. (Darllenwyd: 3 Ionawr 2021)

Lluniau

Guy-Evans, O. (2020) *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory*, Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Darllenwyd: 1 Ionawr 2021)

Profiad pontio ysgol (Hydref-Rhagfyr 2020)